

## Merched y Wawr Llannau'r Tywi - Trip Dirgel - Gorffennaf 2017

Fore Gwener, yr 21ain Gorffennaf aeth nifer dda o aelodau MYW Llannau'r Tywi ar drip dirgel i ddathlu diwedd blwyddyn lewyrchus arall. Er gwaethaf y tywydd gwlyb a diflas roedd pawb mewn hwyliau da ac yn edrych ymlaen at ddiwrnod o fwynhad. Tua'r gorllewin yr anelodd y bus gan aros yn gyntaf yng nghaffi Becca Efailwen i fwynhau ysbaid fer, croeso a chwpaned o goffi ac i ambell aelod, sgons cartref a jam mefus bendigedig. Cychwyn eto ar ein taith, cyrraedd Aberteifi ac ymlaen i Gwbert a gwesty'r Cliff. Er gwaethaf yr hin gallom werthfawrogi golygfeydd godidog o fae Aberteifi, ac mewn awryglch foethus ond cartrefol mwynhaodd pawb ginio blasus dros ben.

Uchafbwynt y daith ddirgel oedd ein hymweliad â chastell Aberteifi. Yno croesawyd ni gan Margaret Daniel, a hi wnaeth ein tywys o amgylch y safle a goronwyd yn enillydd teilwng Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig - *'Great British Buildings: Restoration of the Year'*, a ddarledwyd ar Channel 4. Erbyn hyn roedd y glaw trwm wedi peidio, a phleser oedd gwranddo ar Margaret yn amlinellu hanes y castell - 'a adeiladwyd gan dywysog, ac a achubwyd gan y bobl'.

Nododd mai'r Arglwydd Rhys ap Gruffydd oedd y Cymro cyntaf i adeiladu castell o garreg, a hwnnw yn Aberteifi. I nodi cwblhau'r gwaith adeiladu ym 1176 cynhaliwyd dathliad arbennig yn cynnwys barddoniaeth a cherddoriaeth. Adnabyddir hyn bellach fel Yr Eisteddfod gyntaf. Addas felly oedd gweld mai enw'r bwyty ar y safle yw '1176'. Cawsom gyfle i weld a gwerthfawrogi nodweddion pwysig y castell, y tŷ Georgaidd a hefyd y gerddi. Clywsom fod pobl wedi byw ar y safle am 900 mlynedd yn ddi-dor hyd at y perchennog olaf - y cymeriad lliwgar Miss Barbara Wood.

Ar ein taith o amgylch y tŷ gwelsom y 'Cardigan' enfawr a grëwyd i ddathlu 900 mlynedd o hanes Aberteifi; hon hefyd yn gofnod o hanes yr ardal ac yn arddangos sgiliau a chyfraniad rhyfeddol nifer o bobl o bob oedran.

Tu allan, uwchben y tŵr Dwyreiniol roedd y gadair naw troedfedd o uchder a luniwyd o dderw lleol, llechi ac efydd i gynrychioli'r hyn dybiwyd oedd y gadair eisteddfodol gyntaf. Mae iddi ddelweddau niferus sy'n cynnwys pen llew cerfiedig, coron, a dau geffyl efydd.

Da yw gweld fod ymgyrch a gwaith caled y trigolion gyda chefnogaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri a grantiau Ewropeaidd wedi dwyn ffrwyth. Eisoës, mae'r cyhoedduswydd a ddaeth yn sgil cyfres deledu Channel 4 wedi denu nifer dda o ymwelwyr, o bell ac agos.

Diolchodd Ann Thomas y Cadeirydd i Margaret Daniel am rannu'r hanes diddorol gyda ni. Diolchodd hefyd i Siân Keir a Gwyneth Stephens am drefnu trip arall wnaiff aros yn y cof am sbel hir. Mae'r gangen hefyd yn ddiolchgar am gefnogaeth y Loteri Cenedlaethol.

Fe fydd y tymor newydd yn cychwyn ar Fedi 20fed pan fyddwn yn croesawu Mererid Hopwood i westy Pantyrathro am 7.30. Croeso i aelodau newydd i ymuno â ni.